**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(P)VG/4728/17

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17 Ionawr 2018

Annwyl Bethan,

Rydym wedi gohebu yn y gorffennol ynglŷn ag anhwylderau bwyta. Yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta, rwy'n gwybod eich bod chi'n eiriolwr cryf yn y maes hwn.

Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno ein bod ni wedi gweld gwelliannau mewn gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf gyda £1.75m o gyllid yn cael ei neilltuo bob blwyddyn i wasanaethau anhwylderau bwyta i oedolion a phlant. Mae hyn yn cynnwys y cyhoeddiad yn gynharach eleni fod £500,000 o gyllid yn cael ei roi i wella'r ffordd mae gwasanaethau plant ac oedolion yn gweithio gyda'i gilydd. O ystyried y gwelliannau hyn, ac yn sgil cyhoeddi canllawiau newydd ar anhwylderau bwyta gan y Sefydliad dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn gynharach yn 2017, mae'n amserol i fynd ati nawr i adolygu Fframwaith Anhwylderau Bwyta Cymru 2009. Rwy'n falch o'ch hysbysu bod Dr Jacinta Tan wedi cytuno i ymgymryd â'r adolygiad ar ran Llywodraeth Cymru. Byddwch chi ac aelodau eraill y Grŵp Trawsbleidiol yn adnabod Dr Tan fel seiciatrydd ymchwil ac arbenigwr ar foeseg feddygol. Mae'n Athro Clinigol Cysylltiol ym maes Seiciatreg yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, ac mae'n dod â chyfoeth o brofiad perthnasol i'w rôl.

Bydd ei hadolygiad yn ystyried sut y mae newidiadau o ran mynychder a nifer yr achosion o anhwylderau bwyta a'r arferion gorau wrth ddarparu triniaeth ar gyfer anhwylderau bwyta wedi effeithio ar gomisiynu, dylunio a chyflenwi gwasanaeth, fel a fanylir yn Fframwaith 2019. Byddwch yn ymwybodol bod yr elusen Beat hefyd yn ymgyrchu i weithredu safonau ar gyfer amseroedd aros gwasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru, yn debyg i'r rheiny a gynigiwyd i Loegr. Mae Aelodau Cynulliad wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r mater hwn ac rwyf wedi gofyn i'r adolygiad ystyried a oes angen targedau penodol ar gyfer anhwylderau bwyta.

Nid oes dyddiad penodol wedi'i bennu hyd yn hyn ar gyfer dechrau'r gwaith adolygu. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl i'r gwaith ddechrau cyn hir a bydd yn parhau tan yr hydref. Rwy'n gwybod bod gan gleifion anhwylderau bwyta, yn ogystal â'r rheiny sy'n gweithio yn y maes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hwn, deimladau cryf felly rwy'n awyddus bod defnyddwyr y gwasanaeth ac ymarferwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses. Bydd gan y Grŵp Trawsbleidiol safbwyntiau y bydd am fwydo i'r broses hefyd a byddwn yn falch o roi'r diweddaraf i chi wrth i weithgarwch fynd rhagddo.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Dr Tan.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services